**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2007 Rhif 203 (Cy.17)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/2127) ("y prif Reoliadau").

Maent yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb 2003/35/EC (OJ Rhif L156, 25.6.2003, t.17) sy'n darparu i'r cyhoedd gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol penodol, sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC (OJ Rhif L175, 5.7.85, t.40, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC, OJ Rhif L73, 14.3.97, t.5) ("y Gyfarwyddeb EIA") ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd, i'r graddau y mae honno yn effeithio ar asesiadau effeithiau amgylcheddol ar dir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol.

Maent hefyd yn cynnwys diwygiadau i adlewyrchu newid yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth amgylcheddol.

Mae rheoliad 3 yn diweddaru dehongliadau yn y prif Reoliadau.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol, wrth arfer ei bŵer i roi cyfarwyddyd fod prosiect penodol wedi'i eithrio rhag rheoliadau 4 i 26 o'r prif Reoliadau, i ystyried a fyddai unrhyw asesiad o'r prosiect yn briodol, ac eithrio asesiad o'r math a fyddai yn digwydd o dan reoliadau 4 i 26 o'r prif Reoliadau, ac i roi gwybodaeth benodol yn ymwneud ag arfer y pŵer gerbron y cyhoedd.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 203 (W.17)

# AGRICULTURE, WALES

## The Environmental Impact Assessment (Uncultivated Land and Semi-natural Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Environmental Impact Assessment (Uncultivated Land and Semi-natural Areas) (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/2127) ("the principal Regulations").

They implement Directive 2003/35/EC (OJ No. L156, 25.6.2003, p.17) providing for public participation in certain environmental decision making, which amends Council Directive 85/337/EEC (OJ No. L175, 5.7.85, p.40, as amended by Council Directive 97/11/EC, OJ No. L73, 14.3.97, p.5) ("the EIA Directive") on the assessment of the effects of certain public and private projects on the environment, insofar as it affects environmental impact assessments of uncultivated land and semi-natural areas.

They also include amendments to reflect a change in the legislation relating to disclosure of environmental information.

Regulation 3 updates interpretations in the principal Regulations.

Regulation 4 requires the National Assembly, when exercising its power to direct that a particular project is exempt from regulations 4 to 26 of the principal Regulations, to consider whether any assessment of the project would be appropriate, other than an assessment of the kind which would take place under regulations 4 to 26 of the principal Regulations, and to bring certain information relating to the exercise of the power to the attention of the public.

Mae rheoliad 5 yn diweddaru'r cyfeiriad yn y prif Reoliadau at Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (O.S. 1992/3240 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/1447), sydd bellach wedi'u dirymu. Mae'n darparu nad yw'n ofynnol i gorff ymgynghori ryddhau i ymgeisydd am ganiatâd unrhyw wybodaeth y caiff wrthod ei datgelu o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (O.S. 2004/3391) neu y'i rhwystrir rhag ei datgelu gan y Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi hysbysiad o gais am ganiatâd ar wefan briodol, ac yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys gwybodaeth ychwanegol benodol yn yr hysbysiad.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi unrhyw hysbysiad o wybodaeth amgylcheddol ychwanegol ar wefan briodol.

Mae rheoliad 8 yn diwygio'r gofynion yn y prif Reoliadau sy'n ymwneud â phrosiectau yng Nghymru a ddichon effeithio ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaethau AEE eraill a vice versa.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu gwybodaeth ychwanegol benodol wrth roi hysbysiad o benderfyniad i roi neu i wrthod caniatâd.

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 5 updates the reference in the principal Regulations to the Environmental Information Regulations 1992 (S.I. 1992/3240, as amended by S.I. 1998/1447), which are now revoked. It provides that a consultation body is not required to make available to an applicant for consent any information which it may refuse to disclose under the Environmental Information Regulations 2004 (S.I. 2004/3391) or which it is prevented from disclosing by those Regulations.

Regulation 6 requires the National Assembly to publish notice of an application for consent on an appropriate website, and requires certain additional information to be included in the notice.

Regulation 7 requires the National Assembly to publish any notice of additional environmental information on an appropriate website.

Regulation 8 amends the requirements in the principal Regulations relating to projects in Wales which may affect the environment in other EEA States and vice versa.

Regulation 9 requires certain additional information to be provided by the National Assembly when giving notice of a decision to grant or refuse consent.

A Regulatory Appraisal has been prepared in respect of these Regulations. Copies are available from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 203 (Cy.17)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007

*Wedi'u gwneud* *30 Ionawr 2007*

*Yn dod i rym* *9 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â'r gofyniad i asesu'r effaith ar yr amgylchedd gan brosiectau sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd ac ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 9 Chwefror 2007.

**Diwygio'r Rheoliadau**

**2**. Diwygir Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002(**3**) fel a ganlyn.

(**1**) O.S. 2001/2555 (mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd gan brosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd) ac O.S. 2000/248 (mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â chadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt).

(**2**) 1972 p. 68. Ymestynwyd pwerau galluogi adran 2(2) o'r Ddeddf hon yn rhinwedd diwygio adran 1(2) gan adran 1 o Ddeddf yr Ardal Economaidd Ewropeaidd 1993 (c. 51).

(**3**) O.S. 2002/2127 (Cy. 214).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 203 (W.17)

## AGRICULTURE, WALES

## The Environmental Impact Assessment (Uncultivated Land and Semi-natural Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

*Made* *30 January 2007*

*Coming into force* *9 February 2007*

The National Assembly for Wales being designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to measures relating to the requirement for an assessment of the impact on the environment of projects likely to have significant effects on the environment and to the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora, in exercise of the powers conferred upon it by the said section 2(2), makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Environmental Impact Assessment (Uncultivated Land and Semi-natural Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2007.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 9 February 2007.

**Amendment of Regulations**

**2**. The Environmental Impact Assessment (Uncultivated Land and Semi-natural Areas) (Wales) Regulations 2002(**3**) are amended as follows.

(**1**) S.I. 2001/2555 (in relation to measures relating to the requirement for an assessment of the impact on the environment of projects likely to have significant effects on the environment) and S.I. 2002/248 (in relation to measures relating to the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora).

(**2**) 1972 c. 68. The enabling powers of section 2(2) of this Act were extended by virtue of the amendment of section 1(2) by section 1 of the European Economic Area Act 1993 (c. 51).

(**3**) S.I. 2002/2127 (W. 214).

**Dehongli**

**3**.-(1) Yn rheoliad 2(1)-

(a) yn lle'r diffiniad o "Gwladwriaeth AEE" rhodder "ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Aelod-wladwriaeth, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein";

(b) ar ddiwedd y diffiniad o "y Gyfarwyddeb EIA" ychwaneger "fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2003/35/EC"(**1**);

(c) ar ddiwedd y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Cynefinoedd" ychwaneger "fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan yr Act sy'n ymwneud ag amodau ymaelodi y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithuania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia a'r addasiadau i'r Cytuniadau y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i selio arnynt".

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwgiwyd o dro i dro.

**Cymhwyso'r Rheoliadau**

**4**. Yn rheoliad 3-

(a) ar ôl "rhag" ym mharagraff (3) yn lle "y" mewnosoder "rheoliadau 4 i 26 o'r"; a

(b) ar ôl paragraff (4) ychwaneger-

"(5) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff (3) rhaid iddo-

(a) ystyried a fyddai unrhyw asesiad o'r prosiect yn briodol, ac eithrio asesiad o'r math a fyddai'n ofynnol, petai rheoliadau 4 i 26 o'r Rheoliadau hyn i'w cymhwyso i'r prosiect, cyn gwneud penderfyniad sgrinio o dan rheoliad 5(4) neu benderfyniad i roi neu i wrthod caniatâd o dan reoliad 13(1); a

(b) cymryd y fath gamau ag y mae'n eu hystyried yn briodol i ddwyn y canlynol i sylw'r cyhoedd-

(i) yr wybodaeth a gafodd ei hystyried wrth wneud y cyfarwyddyd a'r rhesymau dros wneud hynny, a

(ii) yr wybodaeth a ddaeth o unrhyw asesiad o'r prosiect a wnaed o dan is-baragraff (a).".

**Interpretation**

**3**.-(1) In regulation 2(1)-

(a) for the definition of "EEA State" substitute " "EEA State" ("*Gwladwriaeth AEE*") means a member State, Norway, Iceland or Liechtenstein";

(b) at the end of the definition of "the EIA Directive" add "as last amended by Directive 2003/35/EC"(**1**);

(c) at the end of the definition of "the Habitats Directive" add "as last amended by the Act concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded".

(2) Any reference in these Regulations to a Community instrument is a reference to that instrument as amended from time to time.

**Application of Regulations**

**4**. In regulation 3-

(a) after "from" in paragraph (3) insert "regulations 4 to 26"; and

(b) after paragraph (4) add-

"(5) Where the National Assembly proposes to give a direction under paragraph (3) it must-

(a) consider whether any assessment of the project would be appropriate, other than an assessment of the kind which, if regulations 4 to 26 of these Regulations applied to the project, would be required prior to a screening decision under regulation 5(4) or a decision to grant or refuse consent under regulation 13(1); and

(b) take such steps as it considers appropriate to bring to the attention of the public-

(i) the information considered in making the direction and the reasons for doing so, and

(ii) the information obtained from any assessment of the project under sub-paragraph (a).".

(**1**) OJ Rhif L156, 25.06.03, t. 17.

(**1**) OJ No. L156, 25.06.03, p. 17.

**Darparu gwybodaeth**

**5**. Yn rheoliad 8, yn lle paragraff (3) rhodder-

"(3) Nid yw paragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ymgynghori ryddhau i'r ceisydd unrhyw wybodaeth-

(a) y caiff wrthod ei datgelu o dan reoliad 12(1) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004(**1**); neu

(b) y'i rhwystrir rhag ei ddatgelu gan reoliad 13(1) o'r Rheoliadau hynny.

(4) Pan nad yw corff ymgynghori yn awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, mae paragraff 3 i'w gymhwyso fel petai'n gorff cyhoeddus o'r fath.".

**Y cais am ganiatâd**

**6**. Yn rheoliad 9(3)(b)-

(a) ar ôl "cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn ardal y tir perthnasol mewnosoder "ac ar wefan briodol";

(b) yn is-baragraff (ii) ar ôl "cyhoeddi'r hysbysiad" hepgorer "a";

(c) ar ôl is-baragraff (iii) ychwaneger-

"(iv) yn datgan fod rhaid i unrhyw ganiatâd a roddir fod yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir yn rheoliad 13(11) ac i unrhyw amodau ychwanegol a wêl y Cynulliad Cenedlaethol yn dda; a

(v) yn datgan, pan fo'n berthnasol, â pha rai eraill o Wladwriaethau'r AEE, yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn erthygl 6(1) o'r Gyfarwyddeb EIA a'r cyhoedd sydd â buddiant mewn unrhyw gyfryw Wladwriaeth AEE yr ymgynghorir â hwy ynglŷn â'r cais.".

**Gwybodaeth ychwanegol**

**7**. Yn rheoliad 10(3), ar ôl "gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn ardal y tir perthnasol" mewnosoder "ac ar wefan briodol".

**Gwladwriaethau AEE Eraill**

**8**. Yn rheoliad 11 -

(a) ym mharagraff (2), yn lle "wybodaeth amgylcheddol ychwanegol", rhodder "wybodaeth bellach y mae'n ei hystyried yn berthnasol i'r cais";

(b) ar ôl paragraff (6) ychwaneger-

"(7) Pan fo Gwladwriaeth AEE arall wedi gwneud penderfyniad i roi neu i wrthod caniatâd

(**1**) O.S. 2004/3391.

**Provision of information**

**5**. In regulation 8, for paragraph (3) substitute-

"(3) Paragraph (1) does not require a consultation body to make available to the applicant any information which-

(a) it may refuse to disclose under regulation 12(1) of the Environmental Information Regulations 2004(**1**); or

(b) it is prevented from disclosing by regulation 13(1) of those Regulations.

(4) Where a consultation body is not a public authority within the meaning of regulation 2(2) of the Environmental Information Regulations 2004, paragraph (3) applies as if it were such a public authority.".

**The consent application**

**6**. In regulation 9(3)(b)-

(a) after "publish in a newspaper circulating in the locality of the relevant land" insert "and on an appropriate website";

(b) in sub-paragraph (ii), after "publication of the notice" omit "and";

(c) after sub-paragraph (iii), add-

"(iv) stating that, if consent is granted, it must be subject to the conditions specified in regulation 13(11) and to any such additional conditions as the National Assembly may think fit; and

(v) stating, where relevant, which of the other EEA States, the authorities referred to in Article 6(1) of the EIA Directive and the public concerned in any such EEA State, will be consulted on the application.".

**Additional information**

**7**. In regulation 10(3), after "publish in a newspaper circulating in the locality of the relevant land" insert "and on an appropriate website".

**Other EEA States**

**8**. In regulation 11-

(a) in paragraph (2), for "additional environmental information", substitute "further information it considers relevant to the application";

(b) after paragraph (6), add-

"(7) Where another EEA State has taken a decision to grant or refuse development consent

(**1**) S.I. 2004/3391.

datblygu ac wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'r penderfyniad hwnnw yn unol ag Erthygl 9(2) o'r Gyfarwyddeb EIA, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y fath gamau ag y mae'n eu hystyried yn briodol i ddwyn unrhyw wybodaeth a gafwyd gan y Wladwriaeth EEA honno mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw i sylw'r cyhoedd.".

**Y penderfyniad ar ganiatâd**

**9**. Yn rheoliad 13 -

(a) ym mharagraff (12)(a), yn lle "o'i benderfyniad ynghyd â'r rhesymau a'r ystyriaethau llawn sy'n sail i'r penderfyniad", rhodder-

"-

(i) o'r penderfyniad;

(ii) o'r rhesymau a'r ystyriaethau llawn y mae'r penderfyniad wedi'i seilio arnynt; a

(iii) o unrhyw sylwadau a wnaed gan y cyhoedd sydd â buddiant ar y cais."

(b) ym mharagraff (12)(c), ar ddiwedd is-baragraff (ii), hepgorer "a";

(c) ym mharagraff (12)(c), ar ddiwedd is-baragraff (iii), ychwaneger-

"(iv) o grynodeb o unrhyw sylwadau a wnaed gan y cyhoedd sydd â buddiant ar y cais; a

(v) o wybodaeth ynghylch yr hawl i herio'r penderfyniad a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

30 Ionawr 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

and has informed the National Assembly of that decision in accordance with Article 9(2) of the EIA Directive, the National Assembly must take such steps as it considers appropriate to bring to the attention of the public any information received from that EEA State in relation to that decision.".

**The consent decision**

**9**. In regulation 13-

(a) in paragraph (12)(a), for "of its decision together with the full reasons and considerations on which the decision is based", substitute-

"of-

(i) the decision;

(ii) the full reasons and considerations on which the decision is based; and

(iii) any representations made by the public concerned in relation to the application."

(b) in paragraph (12)(c), at the end of sub-paragraph (ii), omit "and";

(c) in paragraph (12)(c), at the end of sub-paragraph (iii), add-

"(iv) a summary of any representations made by the public concerned in relation to the application; and

(v) information regarding the right to challenge the decision and the procedures for doing so.".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

30 January 2007

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2007 Rhif 203 (Cy.17)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 203 (W.17)

# AGRICULTURE, WALES

The Environmental Impact Assessment (Uncultivated Land and Semi-natural Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0002 ON